# Myfyrwyr sydd wedi ail-wneud blwyddyn ddwywaith

Mae'n ddrwg gennym nad oes modd i chi symud ymlaen i flwyddyn nesaf eich astudiaethau, ac rydym yn ymwybodol na allwch wneud hynny heb ailsefyll rhai o'ch modiwlau, neu bob un ohonynt.

Nod y ffeithlen hon yw tynnu eich sylw at y ffaith y gallai Cyllid Myfyrwyr wrthod eich ariannu unwaith y bydd y cwmni'n ymwybodol nad oes modd i chi symud ymlaen heb ailsefyll, hyd yn oed os yw eich adran wedi caniatáu i chi ailsefyll. Mae hyn oherwydd bod Cyllid Myfyrwyr fel rheol dim ond yn ariannu hyd eich cwrs + 1 flwyddyn (ac eithrio unrhyw astudiaethau blaenorol).

Os oes gennych resymau meddygol neu amgylchiadau personol difrifol sy'n golygu bod angen i chi ailwneud y flwyddyn, gallwch anfon y pethau canlynol at Cyllid Myfyrwyr:

- tystiolaeth o'r amgylchiadau meddygol neu bersonol
- llythyr o gefnogaeth oddi wrth eich adran yn nodi ei bod yn ymddangos bod eich amgylchiadau wedi effeithio ar eich perfformiad academaidd
- llythyr yn egluro bod angen i chi ail-wneud y flwyddyn oherwydd rhesymau personol cymhellol a effeithiodd ar eich gwaith, a'ch bod wedi cynnwys y dystiolaeth gyda'r llythyr. Rydych yn gofyn am gyllid dewisol am flwyddyn ychwanegol i'ch galluogi i gwblhau'ch astudiaethau.
- Cofiwch sicrhau eich bod yn rhoi eich Rhif Cyfeirnod Cwsmer ar bopeth a anfonwch.

Os nad oes gennych resymau personol cymhellol o'r fath dylech fod yn ymwybodol, os y cofrestrwch fel myfyriwr sy'n ailwneud blwyddyn yn fewnol, y bydd angen i chi hunan-ariannu'r £9000 o ffioedd dysgu ar gyfer y flwyddyn o'ch blaen, ac mae'n bosib mai dim ond benthyciad cynhaliaeth sylfaenol y cewch gan Cyllid Myfyrwyr.

Fe allech fynd i weld cynghorydd academaidd yn eich adran i drafod a fyddai'n bosibl i chi ailsefyll modiwlau yn allanol, ac a yw'r ddau ohonoch yn teimlo bod hynny'n beth synhwyrol i'w wneud. Os benderfynwch chi ar y cyd ei bod yn werth rhoi cynnig arni o safbwynt academaidd, cysylltwch â fees@aber.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am gostau ailsefyll yn allanol.
Os ydych yn ansicr a oes gennych resymau personol cymhellol ai peidio, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch ag un o'n cynghorwyr myfyrwyr ar student-adviser@aber.ac.uk